



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Y Gromlech
11 Penrhiw
Dyffryn Ardudwy
Gwynedd
LI44 2DW**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012

gan

Mr Eifion R Morgan

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin y Gromlech mewn adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol yn Nyffryn Ardudwy. Tref fach wledig ydy Dyffryn Ardudwy ar arfordir canolbarth Cymru rhwng Abermaw a Harlech yng Ngwynedd. Mae'r lleoliad wrth ymyl yr ysgol gynradd leol.

Lleolwyd y Cylch yn wreiddiol yn y neuadd leol gan symud i'r lleoliad presennol yn 1997. Mae Cylch Ti a Fi yn defnyddio'r adeilad am un prynhawn yr wythnos. Ceir mynediad i'r lleoliad ar lwybr sy'n arwain o brif heol Abermaw i Harlech. Mae digon o gyfleusterau parcio car gerllaw.

Mae'r drws allanol, sy'n cael ei gloi bob amser, yn arwain at gyntedd bach sy'n cael ei ddefnyddio fel ystafell hongian cotiau. Yn y cyntedd mae'r hysbyswrdd yn gyfleuster da ac mae toiled i'r anabl. Mae gwybodaeth ddefnyddiol yn cael ei harddangos ar gyfer rhieni, gan gynnwys manylion o weithgareddau'r wythnos.

Mae'r brif ystafell ddysgu yn cynnwys ardaloedd o weithgareddau sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer canolbwyntio'n dda ar anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. O'r brif ystafell, mae drws yn agor i doiledau'r plant a chegin fach â chyfleusterau addas. Mae drws ar ben pella'r ystafell ddysgu yn agor i ardal chwarae tu allan i'r plant sy'n fach ond sydd â chyfleusterau da. Mae'n ardal ddiogel ar gyfer y plant.

Daw'r plant i'r Cylch o 2½ oed a gadael ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y Medi sy'n dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Daw'r rhan fwyaf o'r plant o'r ardal leol, er daw rhai o ardaloedd ymhellach i ffwrdd er mwyn elwa o addysg yn yr iaith Gymraeg. Daw'r plant o gartrefi nad ydynt yn arbennig o freintiedig nac o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw blant o gefndir ethnig lleiafrifol ond mae'r Cylch yn croesawu plant o bob cefndir a'r rhain sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Ar hyn o bryd, mae 14 o blant ar y gofrestr; 10 ohonynt yn 3 oed, ac ariennir 7 ohonynt. Dywed y Cylch bod lleiafrif o blant yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn famiaith, ond heblaw hyn, yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn o'r iaith Gymraeg ac mae nifer o'r rhieni yn dysgu'r iaith.

Mae'r Cylch wedi ei gofrestru gyda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer i fyny at 24 o blant. Mae'n gweithredu bob bore'r wythnos yn ystod yr wythnos rhwng 9 y.b. a 11.30 y.p. yn ystod tymhorau'r ysgol. Cafodd ei arolygu'n flaenorol gan AGGCC yn 2011. Roedd arolygiad blaenorol Estyn yn 2006 ac mae'r Cylch wedi mynd i'r afael â'r argymhellion. Ers hyn, mae arweinydd presennol y Cylch wedi cymryd y cyfrifoldebau ac mae'r ardal chwarae tu allan wedi'i datblygu.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Agweddau da

- Cynnydd y plant a safonau cyflawniad.
- Y datblygiad o allu'r plant yn yr iaith Gymraeg.
- Lles y plant.
- Y berthynas rhwng staff a phlant.
- Y ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles y plant.
- Ethos gynhwysol y Cylch.

Agweddau digonol

- Profiadau dysgu sydd ddim yn ymgysylltu'n llawn â'r plant drwy'r amser.
- Ymddygiad lleiafrif bach o blant.
- Gwybodaeth a ddarperir i rieni ynglŷn â'r hyn y gellid ei wneud i gefnogi addysg eu plant.

Rhagolygon gwella

Agweddau da

- Mae'r arweinyddiaeth yn rhoi cyfeiriad clir a synnwyr o bwrpas i waith y Cylch.
- Y pwyllgor rheoli a sefydlwyd yn ddiweddar.
- Gweithdrefnau hunanarfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.
- Cefnogaeth gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol.
- Staff yn agored i syniadau newydd.

Agweddau anfoddhaol

- Nid yw'r meysydd i'w gwella wedi'u blaenoriaethu.
- Cysylltiadau â rhieni.
- Cysylltiadau â'r ysgol gynradd.

Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r Cylch:

A1 adolygu'r cynllunio o weithgareddau'r bore fel bod tasgau yn cyfateb yn dda â gallu gwahanol y plant ac er mwyn sicrhau eu hymrwymiad gweithredol.

A2 ymestyn gweithdrefnau asesu er mwyn nodi'r sgiliau mae'r plant wedi'u caffael ac i nodi'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

A3 mireinio'r cynllun datblygu er mwyn blaenoriaethu targedau ar gyfer gwella.

A4 chwilio am fwy o gyfleoedd i gynnwys rhieni/gofalwyr wrth gefnogi datblygiad addysgiadol eu plant.

A5 lle'n bosibl, datblygu gwell gysylltiadau â'r ysgol gynradd sy'n derbyn y plant.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cylch yn llunio cynllun sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y Cylch.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd realistig ymhob maes dysgu o'u manau cychwyn ac yn cyflawni safonau da. Pan gânt eu herio'n briodol a phan mae tasgau yn cyfateb yn dda â gallu a diddordebau'r plant, mae pob plentyn yn dangos ymrwymiad llawn wrth feddwl am y tasgau gan ddyfalbarhau am gyfnodau arwyddocaol o amser. Yn ystod yr achysuron hyn, mae'r plant yn gwneud ymdrech arbennig o dda gan gyflawni'n dda ac yn dda iawn mewn rhai achosion. Pan mae'r plant yn cymryd llai o ran maen nhw'n colli diddordeb ac yn dangos llai o ymrwymiad i'w tasgau gan grwydro o gwmpas y dosbarth.

Mae gan y plant o gartrefi Cymraeg feistrolaeth dda o'r iaith, yn siarad yn rhwydd ac yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn gymwys. Mae gan y plant eraill, i raddau helaeth yn ddibynnol ar yr amser maen nhw wedi bod yn mynychu'r lleoliad, ddealltwriaeth o'r iaith sy'n datblygu. Mae pob un yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad gan ddangos wrth eu hymatebion eu bod, ar y cyfan, yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant fedrau gwrando da, yn enwedig pan mae'r gweithgareddau o ddiddordeb iddynt. Maen nhw'n ail-ddweud geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac yn mwynhau caneuon a rhigymau Cymreig. Mae pob plentyn yn mwynhau gwrando ar storïau ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb i gwestiynau gan yr ymarferwyr. Mae llawer o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau gan eu dal yn briodol. Mae pob un o'r plant yn chwarae gyda peniau ffelt ac offer ysgrifennu. Mae gan ychydig o'r plant fedrau ysgrifennu sydd wedi'u datblygu'n dda gan ddilyn amlinelliad rhifau a llythrennau. Mae'r plant yma'n gwybod rhai o sywddogaethau ysgrifennu, fel y gwelwyd yn ystod yr arolygiad pan oedd dau o blant yn nodi yn eu padiau ysgrifennu beth oedd pob un eisiau i ginio. Mae rhai o blant yn dysgu ysgrifennu eu henwau ac mae'r rhain yn adnabyddadwy. Mae hyn yn gynnydd arbennig o dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio iaith fathemategol briodol fel "mawr", "bach" a "yn fwy na". Mae llawer o blant yn dechrau rhifo gan rifo'r plant sy'n bresennol bob bore. Mae'r plant mwy abl yn medru adnabod rhifau i 9 ac ysgrifennu dros y rhifau hyn gyda pen ffelt. Mae'r plant mwy abl yma yn gallu adnabod siapiau fel cylch. Mewn un achos, roedd un plentyn wedi amlinellu cylch yng nghledr ei llaw ac ymateb "Dw i'n gallu gwneud cylch".

Mae'r plant yn chwarae gyda ffonau symudol ac mae pob un o'r plant yn datblygu medrau cyfrifiadurol da fel symud delweddau ar y sgrîn.

Lles: Da

Mae gan bob un o'r plant, pan yn dangos diddordeb yn eu tasgau, agwedd gadarnhaol at ddysgu. Yn yr achosion hyn, mae'r plant yn dangos ymddygiad da ac yn cynnal eu canolbwyntio. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrtais ac yn uniaethu â'i gilydd yn dda. Mewn rhai achosion, pan nad yw'r plant yn siwr o beth i'w wneud, neu pan nad yw'r tasgau yn cyfateb yn dda â'u gallu, maen nhw'n colli diddordeb a'u gallu i ganolbwyntio. Mewn rhai achosion, ceir enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar y plant eraill. Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'r plant yn cyd-weithredu a gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Mae pob un o'r plant yn elwa o fyrbrydau iach ac yn dysgu am fwyta'n iach. Maen nhw'n cael cyfleoedd da i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac mae'r Cylch yn darparu amgylchedd diogel iddynt.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio i gynllunio ac mae'r tasgau yn ennyn diddordeb y plant fel arfer. Mae'r profiadau dysgu'n annog plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

Mae'r plant yn dysgu am bobl o ddiwylliannau a chefnidiroedd eraill, fel yn ystod eu hastudiaeth o Divali, Gŵyl y Golau a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae hyn yn eu helpu i ddeall y byd. Mae'r cynllunio'n cynnwys gweithgareddau i ddatblygu medrau creadigol y plant, fel wrth greu cerddoriaeth a pheintio a'u medrau corfforol fel chwarae tu allan.

Maen nhw'n dysgu gofalu am bethau byw, fel wrth edrych ar ôl ŵyn swci. Mae medrau'r plant yn datblygu ar draws y cwricwlwm ac mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau'r plant, fel eu medrau iaith wrth weithio mewn grwpiau bach. Mae'r defnydd medrus o gwestiynu a deialog yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Rhoddir pwyslais da ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o draddodiadau a dathiadau diwylliant Cymru, gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r plant yn cael eu cyflwyno i'r syniad o ail-gylchu, fel wrth gasglu unrhyw ffrwythau sydd dros ben adeg byrbryd ar gyfer ail-gylchu.

Addysgu: Digonol

Mae'r staff yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn, gan gynnwys y rhai mwy abl a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis

gan y plentyn a'u cyfeirio gan oedolion. Mae enghreifftiau da o dasgau a gweithgareddau sy'n cyfateb yn dda â galluoedd y plant, fel yng ngwaith rhif lle roedd digon o her addas i'r plant. Yn yr un modd roedd y plant yn ymateb yn dda i waith darllen a chreadigol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, roedd diffyg cyflymder a gormod o amser rhydd rhwng gweithgareddau. Yn yr achosion hyn, roedd esiamplau o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan rai o'r plant a oedd yn effeithio ar blant eraill.

Drwyddi draw, mae'r staff yn fodolau iaith dda a defnyddir ymarferwyr ychwanegol yn briodol i gefnogi'r plant sydd wedi'u nodi ag ADY. Caiff y plant eu hasesu'n rheolaidd gan nodi'r arsylwadau. Mae hyn yn fesur da o gynnydd plant. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion asesu bob tro'n nodi lefel sgiliau'r plant ac nid yw'r camau nesaf yn y dysgu yn cael eu nodi er mwyn bod yn ddefnyddiol wrth gynllunio i fodloni anghenion y plant. Fodd bynnag, mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o allu'r plant ac yn canolbwyntio ar weithgareddau i herio plant, fel a arsylwyd pan heriwyd plentyn i drefnu rhifau ysgrifenedig i 9.

Nid yw gwybodaeth am asesiadau'r plant yn cael ei rhoi'n rheolaidd i rieni er mwyn eu hysbysu o gynnydd eu plant a'r hyn sydd ei angen er mwyn eu helpu.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae'r Cylch yn darparu'r plant â chyfleoedd i ddysgu am fywydau a chredoau pobl eraill. Mae'r plant yn gwybod am Divali, Gŵyl Olau India a rhai o'i thraddodiadau. Yn yr un modd, maen nhw'n gwybod am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, dreigiau o Tseina a bwydydd Tsieineaidd. Caiff gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a'r gwir eu datblygu drwy weithgareddau dyddiol y Cylch ac mae'r plant yn dysgu gwahaniaethau rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir.

Mae llawer o'r plant yn dechrau cymryd cyfrifoldeb a derbyn rheolau ymddygiad. Fodd bynnag, mae rhai plant yn ei weld yn anodd i dderbyn rheolau ymddygiad ac yn ymyrryd â mwynhad ac ymrwymiad plant eraill yng ngweithgareddau'r Cylch.

Mae gan y Cylch gysylltiad boddhaol â gwasanaethau arbenigol ac mae'r plant yn elwa o'r gefnogaeth broffesiynol sydd ar gael. Ar hyn o bryd, mae un plentyn yn derbyn cefnogaeth 1:1 yn y Cylch ac mae hyn yn profi'n effeithiol, yn enwedig wrth integreiddio'r plentyn i bob gweithgaredd. Mae'r plant sy'n cael eu nodi ag ADY yn cael mynediad llawn i bob maes dysgu. Caiff yr unigolyn ei integreiddio'n dda i bob agwedd o'r Cylch a chaiff ei anghenion emosiynol ac ymddygiad eu cefnogi'n dda. Mae'r cynnydd yn cael ei asesu'n rheolaidd, mae'r rhieni yn cael eu cysylltu'n rheolaidd ac yn cael eu cynnwys yn llawn.

Mae gan y Cylch bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch plant. Arweinydd y Cylch yw'r person sydd â chyfrifoldeb am ddelio â materion amddiffyn plant a diogelwch ac mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar. Mae'r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r Cylch yn dangos ethos gynhwysol sy'n rhoi hawl gyfartal i'r cwricwlwm i bob plentyn. Mae gan y staff agwedd oddefgar iawn ac maen nhw'n cydymdeimladol iawn at blant sy'n eu cael yn anodd i gydymffurfio. Mae'r plant yma'n cael eu trin yn gydymdeimladol, ond mae rhai achosion pan mae'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio plant eraill. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r plant yn dangos agweddau goddefgar ac mae'r plant yn rhydd oddi wrth aflonyddwch ac ymddygiad gormesol.

Mae gan yr ymarferwyr brofiad a chymwysterau da ac mae'n amlwg eu bod yn mwynhau gweithio gyda phlant ifanc. Mae gan y Cylch adnoddau da i fodloni gofynion cwricwlwm y Cynfod Sylfaen ac anghenion penodol y plant. Nodwedd dda yw'r amrywiaeth o lyfrau stori a llyfrau darllen. Mae hyn yn effeithiol wrth ddal diddordeb y plant a chyflwyno'r plant yn llwyddiannus i ddarllen.

Mae'r amgylchedd tu allan hefyd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddatblygu medrau corfforol y plant a defnyddir yr amgylchedd lleol yn dda i gyfoethogi gwybodaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae synnwyr o ddiben ac ymrwymiad i ddarparu'r profiadau gorau posibl ar gyfer y plant. Mae'r cynllunio strategol yn weithgaredd sy'n cael ei rhannu ac mae gan y ddwy ymarferydd ddisgwyliadau uchel o'r plant. Mae ethos bositif yn amlwg yn y Cylch ac adlewyrchir hyn ym mwynhad y plant.

Mae'r staff newydd wedi cael cyfnod sefydlu ond hyd yn hyn nid yw gwerthuso staff wedi ei wneud yn systematig. Dywed rhieni bod cysylltiadau effeithiol ar waith.

Mae'r pwyllgor rheoli a etholwyd yn ddiweddar yn bodloni eu cyfrifoldebau'n llawn. Maen nhw wedi ymgymryd â'u rolau yn frwdfrydig ac yn dechrau gwneud cyfraniad effeithiol i waith y Cylch.

Mae'r Cylch wedi cymryd ystyriaeth o flaenoriaethau cenedlaethol, fel gweithredu cwricwlwm y Cynfod Sylfaen ac yn cymryd ystyriaeth o fentrau lleol.

Gwella ansawdd: Da

Yn ddiweddar, mae'r Cylch wedi ymgymryd ag hunanarfarniad manwl yn seiliedig ar y 3 Cwestiwn Allweddol a'r 10 dangosydd ansawdd a nodwyd yn y dogfennau Arweiniad ar gyfer arolygu. Nodwyd cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae canlyniad arfarniadau tebyg yn y gorffennol wedi arwain at enillion cadarnhaol ar gyfer y plant, fel datblygiad y cyfleusterau yn yr awyr agored.

Mae'r wybodaeth o'r hunanarfarniad cyfredol wedi cael ei defnyddio i nodi meysydd i'w gwella ond nid yw'r rhain wedi'u blaenoriaethu ac nid yw'r strategaethau ar gyfer eu gweithredu wedi'u gosod yn glir.

Mae'r staff wedi bod yn rhan o hyfforddiant proffesiynol ac mae hyn wedi cael effaith ar gynnydd a lles y plant. Nid yw'r ymarferwyr wedi'u cynnwys mewn datblygiadau lleol tu hwnt i'r lleoliad.

Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Caiff rhieni lyfryn yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y Cylch cyn i'w plant ddechrau ac mae'r rhieni yn cael eu hannog i setlo'u plant yn y Cylch ar y dechrau. Mae'r rhieni yn adnabod y staff yn dda ac yn cael cyfle i siarad â nhw wrth ddod â'u plant i'r Cylch yn y boreau. Mae gwybodaeth sy'n amlinellu'r themau dysgu yn cael ei harddangos yn y cyntedd ac mae'r plant yn mynd ag esiamplau o'u gwaith gartref. Darperir adroddiadau ddiwedd blwyddyn hefyd.

Drwyddi draw, fodd bynnag, nid yw'r rhieni yn cael eu cynnwys yn ddigonol a dywed llawer y byddant yn hoffi cael eu cynnwys yn fwy a chael mwy o wybodaeth ar sut mae'r plant yn gwneud cynnydd. Yn ogystal, byddant yn hoffi gwybod am yr hyn mae'r plant wedi bod yn ei wneud a'r hyn y gallant wneud i'w helpu.

Ar y cyfan, nid yw'r rhieni yn cael digon o wybodaeth am gynnydd eu plant a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu i wella.

Nid yw'r bartneriaeth gyda'r ysgol gynradd wedi'i datblygu digon. Er bod plant yn ymweld â'r ysgol cyn trosglwyddo ac mae athrawon yn ymweld â'r Cylch, nid oes digon o gyfleoedd i'r plant ddod yn gyfarwydd â'r trefniadau newydd, fel bod y trosglwyddo yn digwydd gydag isafswm o straen.

Mae'r Cylch yn mwynhau cefnogaeth weithredol athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol. Mae'n darparu'r Cylch â chyngor proffesiynol ac anogaeth. Mae hyn yn bartneriaeth effeithiol iawn. Yn yr un modd, mae'r Cylch wedi elwa'n sylweddol o gefnogaeth swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o'u rolau ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithlon. Mae'r adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda i gymell y plant i ddysgu ac i gefnogi'r addysgu.

Mae'r ddarpariaeth o adnoddau wedi'i arfarnu'n rheolaidd yn y gorffennol i sefydlu anghenion ac mae'r adnoddau sydd wedi'u prynu wedi bod o fudd i'r plant ac wedi gwella'r ddarpariaeth addysgol.

Drwyddi draw, mae'r Cylch yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd nifer fach yr ymatebion a gafwyd (llai na 10).

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn mwynhau dod i'r Cylch. Yn fuan iawn, maen nhw'n ymwneud â'r gweithgareddau sy'n cael eu gosod iddynt ac yn gweithio gyda'i gilydd gan rannu offer a thrafod yr hyn maen nhw'n ei wneud. Mae'r plant yn mwynhau canu, yn enwedig caneuon actol.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan	Arolygydd Cofnodol
--------------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	<p>Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.